**Adroddiad Taith Ryngwladol: Cynhadledd Hawliau Dynol EuroPride Lisbon 2025**

O **19 i 20 Mehefin 2025**, fe es i **Gynhadledd Hawliau Dynol EuroPride Lisbon,** Portiwgal, fel cynrychiolydd ar ran y Senedd. Cynhaliwyd y gynhadledd yn bennaf yn **Sinema São Jorge**, gyda sesiynau cyfochrog mewn ystafelloedd cyfarfod yn **Swyddfa Senedd Ewrop yn Lisbon**.

Nid cyfarfod Pride ymylol oedd hwn. Dyma oedd wrth graidd y drafodaeth bolisi am yr wythnos: lle oedd hwn i bobl geisio siarad yn blaen am gwestiwn anodd - sut mae dinasyddiaeth gyfartal yn cael ei diogelu pan fo gwleidyddiaeth yn fwy swnllyd, pan fo ymddiriedaeth yn pylu, a phan fo sefydliadau cyhoeddus o dan straen. Nid oedd y rhaglen yn annog areithiau mawreddog am gynnydd. Roedd yn debycach i archwiliad gweithredol o ble mae hawliau'n llwyddo yn ymarferol, a ble maen nhw'n methu.

Roedd yr anerchiad agoriadol yn adlewyrchu'r difrifoldeb hwnnw. Wrth siarad ar ran y sefydliad oedd yn cynnal y digwyddiad, gwnaeth **José Marquina** y pwynt sylfaenol na all cydraddoldeb aros yn addewid ar gyfer ei wireddu rywbryd yn y dyfodol; mae'n rhaid iddo fod yn fyw. Fe roddodd **Luís Loureiro de Amorim**, o gynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd ym Mhortiwgal, y cyfan mewn termau sefydliadol: mae strategaethau yn bwysig, ond dim ond os ydynt wir yn llunio gwaith llywodraethau a chyrff cyhoeddus. Roedd y pwyslais drwyddi draw ar gyflawni, nid ar rethreg.

**Yr hyn a drafodwyd**

Roedd y rhaglen yn amrywio'n fawr, ond nid themâu digyswllt oedd yma. Fe'i trefnwyd o amgylch y mannau lle mae pobl yn profi rhyddid a diogelwch pob dydd: gwasanaethau cyhoeddus, gweithleoedd, llywodraeth leol, a'r amgylchedd gwybodaeth. O ran y drefn ymarferol, roedd sesiynau ar gynhwysiant, camwybodaeth, iechyd meddwl, mudo a lloches, gwaith a thechnoleg, a chynaliadwyedd ac annibyniaeth sefydliadau Pride.

**Cynhwysiant a gwleidyddiaeth symbolau**

Canolbwyntiodd un o’r sesiynau cyntaf ar degwch a chynhwysiant i gymunedau traws, gan gynnwys chwaraeon yn benodol. Y cyfraniadau mwyaf defnyddiol oedd y rhai a wrthsafodd y demtasiwn i ailadrodd dadleuon cyfarwydd. Yn hytrach, gofynnodd y siaradwyr beth ddylai sefydliadau eu gwneud pan fydd pobl yn dod yn symbolau mewn gwrthdaro gwleidyddol ehangach: sut i gadw’r rheolau’n deg, sut i amddiffyn diogelwch, a sut i osgoi troi cyfranogiad lleiafrifoedd yn ddadl gyhoeddus barhaol.

Roedd yn eich hatgoffa bod hawliau nid yn unig yn cael eu hamddiffyn o ran eu hegwyddor, cânt eu hamddiffyn wrth ddylunio systemau bob dydd. Mae cwestiynau ymarferol — sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, llais pwy sy’n cael ei glywed, pa safonau sy'n berthnasol — yn aml yn bwysicach na sloganau.

**Camwybodaeth a chost diffyg ymddiriedaeth**

Aeth sesiwn arall i'r afael â chamwybodaeth a "newyddion ffug". Y prif bwynt oedd nad peth annymunol yn unig yw camwybodaeth. Mae'n newid telerau gwleidyddda. Pan gaiff pobl eu hannog i amau popeth, mae'n anoddach cael dadleuon synhwyrol am bolisi o gwbl. Mae hawliau lleiafrifoedd yn darged hawdd yn y math yna o amgylchedd: gellir eu trin fel datganiadau syml, emosiynol, wedi'u datgysylltu oddi wrth realiti bywyd cyffredin.

Yr hyn a ddaeth yn amlwg iawn oedd yr angen i sefydliadau ymddwyn mewn ffyrdd sy'n ennill ymddiriedaeth: mae angen esboniadau clir, cysondeb, a pharodrwydd i gywiro anwireddau heb eu lledaenu ymhellach yn anfwriadol.

**Gwaith, technoleg, a dirymu'n dawel**

Edrychodd sesiwn arall ar gynhwysiant yn y gweithle yng nghyd-destun technolegau newydd a'r hinsawdd newidiol o amgylch amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant (DEI). Cafodd hyn ei drin fel mater ymarferol o bŵer a chymhellion yn hytrach na chystadleuaeth sloganau. Roedd y pwynt yn un syml: os bydd gweithleoedd yn dod yn llai diogel i bobl fod yn weladwy, os caiff polisïau eu dirymu'n dawel, neu os yw systemau newydd yn ymgorffori rhagfarn, mae'r effaith yn real hyd yn oed os nad oes neb yn datgan hynny.

Roedd hwn yn atgoffâd defnyddiol. Ar lefel ymarferol, yn y gweithle mae llawer o bobl yn profi cydraddoldeb ar ei fwyaf uniongyrchol - drwy recriwtio, cynnydd gyrfa, diwylliant bob dydd, a pha un ai allant fod yn agored heb gael eu cosbi.

**Iechyd meddwl a straen ar leiafrifoedd**

Defnyddiodd y sesiwn ar iechyd meddwl fodel "straen ar leiafrifoedd": y syniad bod stigma parhaol ac allgáu yn cael effeithiau rhagweladwy ar lesiant. Os yw amgylcheddau cymdeithasol yn creu ofn, ynysu, a hunanreolaeth gyson, bydd canlyniadau hynny i'w gweld yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r goblygiadau i lunwyr polisi yn anghyfforddus ond yn amlwg: nid yw atal yn golygu ymyrraeth glinigol yn unig. Mae'n ymwneud hefyd â'r amodau sy'n gwneud gofid yn fwy tebygol yn y lle cyntaf - yr angen i fod yn ddiogel, i gael ymdeimlad o berthyn, ac i gael triniaeth deg.

**Iechyd y cyhoedd: atal, stigma, a dylunio gwasanaethau**

Sesiwn ar iechyd rhywiol ac atal HIV oedd un o drafodaethau mwyaf defnyddiol y gynhadledd ar lefel ymarferol, gan ei bod yn benodol yn cadw draw oddi wrth sloganau. Roedd yn trafod iechyd y cyhoedd yng nghyswllt dylunio gwasanaethau: pwy all gael mynediad at fesurau ataliol, pa mor hawdd yw gwneud hynny, a beth sy'n rhwystro systemau pan fyddant yn dal i ddibynnu ar dybiaethau hen ffasiwn am "risg"?

Ar y panel roedd **Jack Lewis** (cynrychiolydd talaith Massachusetts), **Tor-Hugne Olsen** (Sex og Politikk) a **JayJay Potter-Peachey** (InterPride). Trafodwyd ystod o wahanol ddulliau cenedlaethol, ond roedd y brif neges yn gyson: mae atal yn gweithio pan fo

gwasanaethau'n hawdd eu cyrraedd, yn ddi-feirniadaeth, ac wedi'u llunio o amgylch realiti bywyd pobl — nid o amgylch stereoteipiau, stigma neu reoli diangen.

Soniwyd am stigma dro ar ôl tro. Os yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu barnu, os oes gennynt ofn cael eu labelu, neu os yw'r llwybr tuag at fesurau ataliol yn gofyn am gyfiawnhad ymwthiol, maent yn gohirio mynd am brawf neu'n osgoi gwasanaethau yn gyfan gwbl. Nid yn unig y mae cywilydd yn niweidiol i berson; mae'n rhwystr i iechyd da.

Rhoddodd y cwestiynau o'r llawr ffocws i'r darlun. Trafododd y siaradwyr a'r cyfranogwyr sut y gall mynediad fod yn anghyson, ac mae hynny'n cynnwys pan mae costau, rheolau ynghylch cymhwysedd neu amseroedd aros hir yn golygu bod y ddarpariaeth yn garpiog hyd yn oed mewn systemau sydd i fod ar gael i bawb. Roedd rhybudd clir hefyd yn erbyn gwasanaethau sydd â man cychwyn ble mae rhagdybiaethau yn golygu bod rhai grwpiau'n gorfod "profi" eu bod yn gymwys i gael gofal.

Daeth dwy wers ymarferol i'r fei.

Yn gyntaf, mae hyfforddiant a medr diwylliannol yn bwysig. Os nad oes gan glinigwyr yr iaith na'r hyder i ofyn y cwestiynau cywir, y canlyniad yw rhyngweithiadau lletchwith, ailadroddus, sydd weithiau'n ddiraddiol - ac mae hynny'n ymddieithrio pobl o'r broses ataliol.

Yn ail, nid yw arfer da yn lledaenu trwy ewyllys da yn unig. Gall gwaith allgymorth gyrraedd miloedd; gall safonau, llwybrau a hyfforddiant fel mater o drefn gyrraedd pawb. Os yw atal yn dibynnu ar ychydig o unigolion ymroddedig, mae'n parhau i fod yn fregus. Os yw'n dod yn fater o drefn - llwybrau clir i wasanaethau, protocolau cyson, clinigwyr dibynadwy - mae'n dod yn wydn.

**Gofod dinesig, cyllido, ac annibyniaeth**

Roedd edefyn arall yn y gynhadledd yn ymdrin â chynaliadwyedd sefydliadau Pride a chwestiwn cyllid. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y cyd-destun newydd y mae sefydliadau LHDT+ bellach yn ei wynebu. Mae costau'n gysylltiedig â digwyddiadau cyhoeddus - lleoliadau, diogelwch, hygyrchedd, staffio - ac mae'r costau hyn yn codi pan fydd gwleidyddiaeth yn dod yn fwy gelyniaethus. Roedd hefyd yn cydnabod y benbleth: gall cyllid gynnal gofod dinesig, ond gall hefyd godi cwestiynau ynghylch annibyniaeth a hygrededd os yw trefniadau llywodraethu'n wan.

Roedd rhannau gorau'r sgwrs yn rhai ymarferol: sut i gynnal ymddiriedaeth, sut i fod yn dryloyw, a sut i sicrhau bod Pride yn parhau i fod wedi'i wreiddio yn y gymuned yn hytrach na dod yn rhywbeth masnachol yn unig.

**Rhwydweithiau gwleidyddol: sut mae newid yn digwydd yn y brif ffrwd**

Roedd un o'r sesiynau mwyaf defnyddiol es i iddi hi o ran ymarferoldeb yn canolbwyntio ar rwydweithiau LGBTQIA+ o fewn gwleidyddiaeth Ewrop, gan ddod â chynrychiolwyr sy'n gysylltiedig â gwahanol draddodiadau gwleidyddol ynghyd.

Roedd tri phwynt amlwg.

Yn gyntaf, dadleuodd y siaradwyr fod cydraddoldeb ar ei gryfaf pan gaiff ei integreiddio i bolisiau cyffredin - tai, gwaith, gwasanaethau cyhoeddus, gwneud penderfyniadau yn lleol - yn hytrach na'i drin fel “mater ar wahân i’r gymuned". Nid yw pobl yn byw bywydau sy'n canolbwyntio ar un mater yn unig, ac mae gwahaniaethu yn aml yn ymddangos yn yr undonrwydd o ddydd-i-ddydd: gan landlord, mewn cyfweliad am swydd, gweithle gelyniaethus, gwasanaeth sy'n anos cael mynediad ato os ydych chi'n wahanol.

Yn ail, roedd pwyslais cryf ar y lefel leol. Beth bynnag a gytunir mewn prifddinasoedd neu ym Mrwsel, mae hawliau'n cael eu byw mewn ysgolion, ysbytai, cynghorau a gweithleoedd. Os na ellir trosi polisi yn benderfyniadau y gall arweinwyr lleol a rheolwyr gwasanaethau eu defnyddio, parhânt i fod yn haniaethol.

Yn drydydd, roedd y siaradwyr yn onest ynglŷn â rôl rhwydweithiau. Maent yn bodoli oherwydd nad yw pleidiau gwleidyddol yn unffurf. Mae angen perswadio rhai cydweithwyr ac angen addysgu eraill; mae angen procio rhai i fod yn fwy dewr. Mae rhwydweithiau'n cynnig parhad a chof a rennir, ac maent yn lleihau'r unigedd a all wneud i bobl encilio pan maent o dan bwysau.

Defnyddiais y sesiwn hon i ofyn cwestiwn ymarferol am ymgysylltu mewn democratiaethau lluosog: pa agwedd y dylai democratiaid ei chymryd pan fydd unigolion LHDT â dylanwad o fewn pleidiau y gallai eu rhaglenni ehangach fod yn elyniaethus i gydraddoldeb? Roedd yr ymatebion yn rhai pwyllog. Fe wnaethant dynnu llinell glir rhwng ymgysylltu ffurfiol, lle gallai fod yn angenrheidiol i ymgysylltu er mwyn sicrhau canlyniadau gwell, a chymeradwyaeth ddinesig o fudiadau gwleidyddol sy’n mynd yn llai blaengar o ran hawliau.

Roedd y drafodaeth hon yn cysylltu'n uniongyrchol â fy ngwaith fy hun wrth sefydlu **Rhwydwaith seneddwyr LHDT+ Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad**. Atgyfnerthodd y profiad Ewropeaidd werth rhwydweithiau nad ydynt yn symbolaidd yn unig, ond yn rhai gweithredol: maent yn rhannu dulliau polisi, yn creu cefnogaeth ar draws awdurdodaethau, ac yn cadw hawliau lleiafrifoedd ar yr agenda brif ffrwd.

**Sesiwn gloi: Ewrop, ond nid Ewrop yn unig**

Daeth y gynhadledd i ben wrth edrych tuag at orwelion pellach. Daeth â ffigurau uwch y mudiad Pride a hawliau dynol ynghyd, gan gynnwys trefnwyr rhyngwladol, ac roedd yn cynnwys **Erika Hilton**, cyngreswraig o Frasil. Roedd ei phresenoldeb yn bwysig oherwydd ei fod yn atgoffa'r ystafell nad yw'r dadleuon hyn yn eistedd yn dwt o fewn ffiniau Ewrop yn unig. Caiff hawliau eu herio’n fyd-eang, a gall dewisiadau a wneir mewn

un wlad – p’un a ddylid amddiffyn gofod dinesig, p’un a ddylid gwneud lleiafrifoedd yn dargedau gwleidyddol, p’un a ddylid gadael i dwyllwybodaeth fynd heb ei chywiro - glywed adlais mewn mannau eraill.

**Sut y mae'n berthnasol i Gymru**

Roedd perthnasedd ein trafodaethau i Gymru yn amlochrog.

Yn gyntaf, cryfhaodd yr ymweliad hwn y berthynas seneddol ryngwladol y mae gan Gymru ddiddordeb yn ei meithrin - yn enwedig drwy fy ngwaith gyda rhwydwaith seneddwyr LHDT+ Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Cynigiodd Lisbon olwg gryno ar sut mae rhwydweithiau tebyg yn Ewrop yn gweithredu: beth maen nhw'n ei flaenoriaethu, sut maen nhw'n cadw materion ar yr agenda, a sut maen nhw'n trosi gwerthoedd yn bolisiau defnyddiadwy.

Yn ail, roedd yma wersi defnyddiol i Gymru wrth i ni baratoi i gynnal digwyddiadau mawr sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant Ewropeaidd. Caerdydd fydd yn croesawu **EuroGames 2027**. Dangosodd Lisbon sut olwg sydd ar ddinas pan fydd digwyddiad cyhoeddus mawr yn cynnwys hawliau dynol difrifol a chyfranogiad sefydliadol. Mae'r wers yn syml: bernir dinas a gwledydd sy'n cynnal digwyddiad o’r fath nid yn unig ar y modd maent yn dathlu, ond ar eu gallu i gynllunio, eu diogelwch, eu hygyrchedd a’u hygrededd.

Yn drydydd, fe helpodd i egluro beth fyddai angen ar gyfer cais i gynnal **EuroPride**. Dangosodd Lisbon nad gorymdaith yn unig yw EuroPride. Mae'n cynnwys cynhadledd hawliau dynol o sylwedd go iawn, y gallu i gynnull partneriaid ar draws cymdeithas sifil a sefydliadau, ac aeddfedrwydd sefydliadol i gyflawni ar raddfa Ewropeaidd. Ni ddylai Cymru drin cais posibl fel gweithred symbolaidd yn unig. Roedd ymweld â Lisbon yn ei gwneud hi'n haws i ddeall beth fyddai ei angen ar gyfer gais credadwy, os byddwn yn dewis meddwl am wneud cais cyn 2030.

**Beth wnes i ddod yn ôl â mi?**

Yn gyntaf, ymdeimlad cliriach bod hawliau'n cael eu cynnal - neu'n cael eu gwanhau - trwy systemau bob dydd. Mae cydraddoldeb ffurfiol yn bwysig, ond mae byw cydraddoldeb yn dibynnu ar ymddygiad sefydliadau: pa mor gyson ydyn nhw, pa mor hygyrch yw gwasanaethau, a pha mor hyderus yw pobl y bydd cyrff cyhoeddus yn eu trin yn deg.

Yn ail, gwerthfawrogiad mwy craff o sut mae camwybodaeth yn newid bywyd democrataidd. Pan fydd ymddiriedaeth yn dadfeilio, mae dadl polisi yn mynd yn anos, ac mae’n mynd yn haws i gymryd mantais ar faterion o ran hawliau lleiafrifoedd. Ni all sefydliadau ddatrys hynny ar eu pennau eu hunain, ond gallant sefydlogi'r sefyllfa neu ei gwaethygu.

Yn drydydd, cipolwg ymarferol ar sut mae rhwydweithiau gwleidyddol yn cadw cydraddoldeb yn rhan annatod o sefydliadau prif ffrwd: trosi gwerthoedd yn iaith bolisi

ymarferol, rhannu arferion, a chynnal undod a chefnogaeth cyfoedion ar draws cyd-destunau gwahanol iawn.

Mae Lisbon, dan arweiniad maer deinamig a blaengar, yn amlwg yn ddinas sy'n gwybod sut i gynnal digwyddiadau rhyngwladol ar raddfa fawr. Ond roedd gwerth yr ymweliad hwn yn gorwedd yn nifrifoldeb y gynhadledd a pherthnasedd uniongyrchol ei themâu i waith deddfwrfa fodern: mae amddiffyn dinasyddiaeth gyfartal yn golygu amddiffyn nid yn unig egwyddorion, ond y peirianwaith bob dydd sy'n gwneud yr egwyddorion hynny'n rhai real.